# Datganiad Polisi Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig 2022

## Pwrpas

Mae'r datganiad polisi hwn yn mynegi sut mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn mynd i'r afael â cham-drin domestig a'n hymrwymiad i wneud hynny. Mae'n nodi ein huchelgais i gynyddu nifer yr erlyniadau cam-drin domestig ac i wella canlyniadau cyfiawnder troseddol i ddioddefwyr tra'n canolbwyntio ar ansawdd gwaith achos. Bydd o ddiddordeb mwyaf i'r rhai sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig, yn broffesiynol neu'n bersonol, aelodau'r cyhoedd neu'r rheini sy'n gweithio o fewn y maes cyfiawnder troseddol gydag ymrwymiad ar y cyd i fynd i'r afael â cham-drin domestig.

Mae cam-drin domestig yn cynrychioli traean o'r holl droseddau a dderbynnir gan Wasanaeth Erlyn y Goron a bron i 20% o'n gwaith achos yn gyson. Serch hynny, yn y blynyddoedd diweddar, rydym wedi gweld gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr atgyfeiriadau o gam-drin domestig wrth yr heddlu i Wasanaeth Erlyn y Goron. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r gyfradd gyhuddo wedi aros yn sefydlog dros 70% ond mae'r nifer a gyhuddwyd wedi gostwng yn unol ag atgyfeiriadau. Rydym yn cydnabod bod hyn yn destun pryder ac rydym yn gweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol a grwpiau cymorth i ddioddefwyr i ddeall a mynd i'r afael â hyn drwy'r polisi hwn.

Uchelgais Gwasanaeth Erlyn y Goron yw sicrhau cyfiawnder ym mhob achos posib o gam-drin domestig. Fel prif wasanaeth erlyn Cymru a Lloegr, rydym eisiau sicrhau bod dioddefwyr, waeth beth fo'r cefndir neu'r amgylchiadau, yn gweld cyfiawnder yn cael ei wneud.

Mae tua 2.3 miliwn o ddioddefwyr cam-drin domestig y flwyddyn rhwng 16 a 74 oed (dwy ran o dair yn fenywod) ac mae dros un ym mhob deg o droseddau a gofnodir gan yr heddlu yn ymwneud â cham-drin domestig. Byddwn yn gweithio'n galed i helpu dioddefwyr i ddeall sut y cânt eu cefnogi os byddant yn riportio cam-drin domestig a'u hachos yn cael ei drosglwyddo atom wrth yr heddlu.

Wrth ddarllen y wybodaeth hon, defnyddir 'dioddefwr' i ddisgrifio rhywun y mae trosedd wedi'i chyflawni yn ei erbyn. Mae'n bwysig nodi pan fydd dioddefwr yn gysylltiedig ag achos, nhw yw'r 'achwynydd' neu'r 'tyst' a dyna sut y cyfeiriwn atynt yn ein gwaith; gellir defnyddio'r term 'goroeswr' hefyd – ond o fewn y ddogfen hon, er hwylustod, cyfeiriwn atynt fel y dioddefwr. 'Rhywun sy'n cael ei amau' yw rhywun y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried ei gyhuddo. 'Diffynnydd' yw rhywun sydd wedi cael ei gyhuddo gan Wasanaeth Erlyn y Goron. 'Troseddwr' yw rhywun sydd wedi cyflawni trosedd neu wedi cyfaddef hynny neu wedi ei gael yn euog.

## Cyflwyniad

Am y tro cyntaf, mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn creu diffiniad statudol traws-lywodraethol o gam-drin domestig, i sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei ddeall yn iawn, yn cael ei ystyried yn annerbyniol ac yn cael ei herio'n weithredol ar draws asiantaethau statudol ac mewn agweddau cyhoeddus.

Mae achosion o gam-drin domestig ymhlith y gwaith sy'n cael y blaenoriaeth uchaf yn y system cyfiawnder troseddol. Cânt eu hystyried yn droseddau difrifol gan Wasanaeth Erlyn y Goron gyda

dioddefwyr yn cael hawl awtomatig am wasanaeth estynedig. Mae diogelwch dioddefwyr a phlant yn ogystal ag atebolrwydd y cyflawnwr yn bwysig wrth erlyn achosion o gam-drin domestig.

Er nad oes unrhyw drosedd benodol o 'gam-drin domestig', gellir cymhwyso'r term i nifer o droseddau a gyflawnir mewn amgylchedd domestig. Mae natur ddomestig yr ymddygiad troseddol yn ffactor gwaethygol i drosedd oherwydd y camfanteisio ar ymddiriedaeth. Bydd dioddefwyr yn adnabod, ac yn aml yn byw neu wedi byw, gyda'r cyflawnwr. Efallai y bydd bygythiad parhaus felly i ddiogelwch y dioddefwr, ac yn yr achosion gwaethaf, bygythiad i'w bywydau neu fywydau'r rheini o'u hamgylch.

Gall cam-drin domestig arwain at drawma arhosol i ddioddefwyr a'u teuluoedd estynedig, yn enwedig plant a phobl ifanc sydd, o bosib, ddim yn gweld y cam-drin ond yn ymwybodol ohono neu'n ei glywed yn digwydd. Mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn ei gwneud yn glir bod plant, p'un ai ydynt yn cael eu hanafu neu'n gweld y troseddu, yn cael eu hystyried yn ddioddefwyr cam-drin domestig os ydynt yn byw ar aelwyd gamdriniol.

Pan fydd pobl yn clywed y term 'cam-drin domestig', yn aml maen nhw'n meddwl am weithredoedd o drais corfforol, ond ceir ymddygiad mwy cynnil hefyd sydd yr un mor niweidiol. Ers 2015, mae trosedd ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol o fewn perthynas wedi bod yn anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr.

Er y gall y cam-drin ddigwydd ar sawl ffurf wahanol, fel arfer mae'n cynnwys bod yn ystrywgar, bychanu, bygwth ac ynysu i reoli a chodi ofn ar ddioddefwyr – gan adael creithiau emosiynol aruthrol. Nid oes lle i gamdriniaeth o'r fath yn ein cymdeithas.

Rydym eisiau helpu dioddefwyr i ddeall beth yw cam-drin domestig neu ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol – a rhybuddio cyflawnwyr y gall ymddygiad o'r fath fod yn drosedd ac na fydd yn cael ei oddef.

## Ynglŷn â Gwasanaeth Erlyn y Goron

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gyfrifol am sicrhau bod y person iawn yn cael ei erlyn am y drosedd iawn. Rydym yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol ac yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a phobl oddi mewn iddynt, gan gynnwys yr heddlu, y llysoedd, cyfreithwyr yr amddiffyniad, y Gwasanaeth Tystion a gwasanaethau carchardai. Er ein bod yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, rydym yn annibynnol ar ein gilydd. Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Twrnai Cyffredinol.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn:
- Penderfynu pa achosion i'w herlyn
- Pennu'r cyhuddiadau priodol
- Cynghori'r heddlu yng nghamau cynnar ymchwiliadau mewn achosion mwy difrifol
- Paratoi achosion a'u cyflwyno yn y llys
- Darparu gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth i ddioddefwyr a thystion yr erlyniad

Rydym yn adeiladu partneriaethau cryf ar draws y system cyfiawnder troseddol ac yn draws-lywodraethol i lywio gwelliannau, yn ein gwaith ein hunain a thrwy gefnogi ein partneriaid, i annog mwy o bobl i ddod ymlaen i wneud iawn drwy'r system cyfiawnder troseddol, dod â throseddwyr o flaen eu gwell a diogelu dioddefwyr.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i adeiladu'r achosion gorau posibl cyn gynted â phosibl. Mae'r heddlu yn gyfrifol am archwilio i honiadau o gam-drin domestig neu gasglu tystiolaeth. Nid yw'r heddlu yn anfon pob cwyn am drosedd atom ni.

Lle bo'r heddlu o'r farn bod digon o dystiolaeth i gefnogi honiad o gam-drin domestig a'i fod er budd y cyhoedd i erlyn y person o dan amheuaeth, dylent gyfeirio'r achos at Wasanaeth Erlyn y Goron. Caiff penderfyniadau cyhuddo mewn achosion o gam-drin domestig eu gwneud gan Wasanaeth Erlyn y Goron, nid yr heddlu, er gall yr heddlu benderfynu rhoi rhybudd syml am achos o gam-drin domestig os yw'n ymwneud â diannod[1] neu achos neillog (ond nid os yw'n achos ditiadwy yn unig). Gall yr heddlu ymgynghori hefyd a gofyn am 'gyngor cynnar' oddi wrthym o ddechrau ymchwiliad i ddatblygu a chryfhau achos.

## Sut rydym yn adolygu tystiolaeth ac yn gwneud penderfyniadau

Nid chyfeirir pob cwyn am gam-drin domestig at Wasanaeth Erlyn y Goron am benderfyniad ynghylch cyhuddo; serch hynny, rydym yn benderfynol o weld mwy o gyflawnwyr yn dod o flaen eu gwell ac yn gweithio'n galed gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i gynyddu nifer y dioddefwyr y gallwn sicrhau cyfiawnder iddynt. Pan ddaw achos i law, ni fyddwn yn oedi cyn erlyn pryd bynnag y bodlonir ein prawf cyfreithiol.

Wrth benderfynu a ddylid cyhuddo mewn achos troseddol, rhaid i'n herlynwyr ddilyn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (y Cod) wrth gymhwyso'r gyfraith. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried ffeithiau llawn yr ymddygiad troseddol, y cefndir perthnasol a'r hanes. Edrychwn ar bob achos a anfonir atom, a bydd pob penderfyniad a wnawn yn seiliedig ar y prawf dau-gam canlynol:

> Cam 1 – Y cam tystiolaethol – A yw'r dystiolaeth yn rhoi 'disgwyliad realistig o euogfarn'? Mae hynny'n golygu, ar ôl edrych ar y dystiolaeth i gyd, ein bod yn credu bod llys yn fwy tebygol na pheidio i gael y diffinydd yn euog. Dylai pob penderfyniad a wnawn fod yn deg, yn wrthrychol ac yn annibynnol, yn seiliedig ar ffeithiau a rhinweddau pob achos unigol.
>
> Cam 2 – Cam budd y cyhoedd - Os yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid i ni benderfynu os yw cyhuddo 'er budd y cyhoedd'. Mae hynny'n golygu gofyn cwestiynau, gan gynnwys pa mor ddifrifol oedd y drosedd, y niwed a achoswyd, yr effaith ar gymunedau ac ai erlyniad yw'r ymateb cywir.

O ystyried difrifoldeb troseddau cam-drin domestig, fel arfer bydd angen erlyniad pan fodlonir y gofynion tystiolaethol o dan y Cod.

O fewn ein canllawiau cyfreithiol ar gam-drin domestig, ceir gwybodaeth i herio mythau a stereoteipiau ac i godi ymwybyddiaeth o effaith cam-drin domestig ar grwpiau penodol, gan gynnwys y rhwystrau ychwanegol i riportio neu gefnogi erlyniad cam-drin domestig. Mae hyn yn galluogi'n herlynwyr i adeiladu achosion cryf sy'n seiliedig ar y dystiolaeth o fewn yr achos.

Os yw erlynydd yn penderfynu peidio ag erlyn, mae gan y dioddefwr hawl i ofyn i'r penderfyniad gael ei adolygu drwy gynllun Hawl i Adolygu Gwasanaeth Erlyn y Goron.

## Arweinyddiaeth

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymrwymo i arweinyddiaeth gref wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig. Mae pob aelod o staff sy'n ymwneud â'r broses erlyn yn atebol am atgyfnerthu ein huchelgais i sicrhau cyfiawnder ym mhob achos posib o gam-drin domestig.

Mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, gyda chefnogaeth uwch arweinwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron, wedi ymrwymo i ddatblygu partneriaethau cryf a pherthnasoedd gwaith cadarn i arwain, gwelliannau ar gam-drin domestig ar draws y system gyfan gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol.

Mae ein uwch arweinwyr yn cymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r gwaith hwn sydd o flaenoriaeth uchel. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi, yn gyfrifol, ac yn atebol, i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, am gyflawni'r rhaglen Cam-drin Domestig, gan sicrhau ei fod yn ymateb i natur esblygol cam-drin domestig i sicrhau cyfiawnder. I adeiladu ar yr ymrwymiad hwnnw, mae gan Wasanaeth Erlyn y Goron Brif Erlynydd y Goron hynod brofiadol fel ein Hyrwyddwr Cam-drin Domestig cenedlaethol. Mae'r rôl wedi ymroi i gynnig arbenigedd i hyrwyddo gwelliant parhaus a hyrwyddo ein gweledigaeth strategol ar fynd i'r afael â cham-drin domestig ar draws ein sefydliad a gyda'n rhanddeiliaid.

## Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Mae Cam-drin Domestig yn rhan o'n strategaeth gyffredinol ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched i fynd i'r afael â throseddau sydd wedi'u cyflawni'n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, gan ddynion yn erbyn menywod. Ceir tystiolaeth sylweddol y bydd menywod yn goddef trais a rheolaeth corfforol mwy difrifol ac yn fwy tebygol o brofi trais rhywiol.

Mae astudiaethau o nifer yr achosion o gam-drin domestig wedi dangos profiad anghymesur o gam-drin domestig ymhlith menywod; serch hynny, rydym hefyd yn gweld achosion lle mae unigolion traws neu anneuaidd a dynion yn ddioddefwyr ac achosion lle gwelir plant fel dioddefwyr, sy'n dioddef camdriniaeth o dan law eu rhieni/gofalwyr. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydnabod profiad dioddefwyr gwrywaidd a'i effaith ofidus arnynt. Caiff hynny ei atgyfnerthu yn y datganiad cyhoeddus ar ddioddefwyr gwrywaidd ar gyfer troseddau sy'n cael ei gwmpasu gan Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched.

Mae gan Wasanaeth Erlyn y Goron ganllawiau a chyngor i'n herlynwyr i sicrhau bod yr holl ddioddefwr yn cael eu cefnogi heb unrhyw gyffredinoli na stereoteipio. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymhwyso polisïau'n deg i bob dioddefwr ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfiawnder i bob dioddefwr.

## Ymrwymiad Gwasanaeth Erlyn y Goron i Ddioddefwyr Cam-drin Domestig

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymrwymo i gymryd pob cam ymarferol i helpu dioddefwyr drwy'r profiad o ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, sy'n aml yn anodd.

Lle bynnag y bo dioddefwr y gellir ei adnabod, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dilyn yr ymrwymiad a roddwyd yn Addewid yr Erlynwyr. Mae'r addewid yn amlinellu beth allwch ei ddisgwyl i Wasanaeth Erlyn y Goron ei wneud os ydych yn ddioddefwr neu'n aelod o deulu dioddefwr.

## Cyfathrebu ac ymgysylltu â dioddefwyr cam-drin domestig

Mae'n hanfodol – i gefnogi dioddefwyr a meithrin hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd – ein bod yn egluro rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron yn well, sut a pham rydym yn gwneud penderfyniadau a pha gymorth sydd ar gael. Po fwyaf y bydd y cyhoedd yn ei ddeall am ein rôl ac yn ymddiried yn y penderfyniadau a wnawn, y mwyaf tebygol y maen nhw o riportio camdriniaeth a chefnogi erlyniadau fel dioddefwyr neu dystion, i ymgysylltu â'r broses ac ymddiried yn y canlyniadau fel rhai teg a chyfiawn. Rydym wedi ymrwymo i gydweithio â phartneriaid cyfiawnder troseddol a'r trydydd sector i gynyddu nifer yr erlyniadau cam-drin domestig ac i wella canlyniadau i ddioddefwyr. Mae dioddefwyr sydd wedi ymgysylltu â'r broses yn allweddol i ni'n aml iawn er mwyn cyflwyno achosion yn y llys a sicrhau cyfiawnder yn y pen draw.

Ar ein gwefan, mae gwybodaeth fanwl am y cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr a thystion a'n hymrwymiad, gan gynnwys sut rydym yn erlyn achosion o gam-drin domestig.

Ar lefel leol, mae ein Rheolwyr Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Chymunedau yn gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau, i adeiladu hyder a hyrwyddo'r defnydd o wybodaeth leol i sicrhau penderfyniadau o ansawdd da. Mae'r cipolwg hwn yn siapio ac yn llywio ein polisïau, ein canllawiau cyfreithiol a'n strategaeth gwaith achos.

## Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig

Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn mynd i'r afael â cham-drin domestig drwy:

- **Cydweithio**, ar lefel leol a chenedlaethol. I fynd i'r afael â'r troseddau cyson hyn, mae angen dull cynhwysfawr a chyd-gysylltiedig. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y system cyfiawnder troseddol, traws-lywodraethol a grwpiau dioddefwyr i sicrhau cyfiawnder ym mhob achos hyfyw o gam-drin domestig ac i gefnogi dioddefwyr.

- **Cyflawni ar y rhaglen gyflenwi ar Gam-drin Domestig**, sy'n nodi ein gwaith i drosi newidiadau polisi yn newid gweithredol. Caiff ei ategu gan ymrwymiad i flaenoriaethu atgyfeiriadau a chydweithio i gynyddu nifer yr erlyniadau cam-drin domestig. Mae'n mynegi'r rôl sydd gennym o ran llywio arferion gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y maes cyfiawnder troseddol, ac felly'n meithrin hyder y cyhoedd yn yr ymateb cyfiawnder troseddol i gam-drin domestig.

- Mae **Canllawiau Cyfreithiol Cam-drin Domestig** ar gyfer ein herlynwyr, yn nodi sut dylent gymhwyso'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, i sicrhau bod penderfyniadau yn deg, yn dryloyw ac yn gyson wrth ystyried unrhyw droseddau sy'n dod o fewn y diffiniad o gam-drin domestig a hyrwyddo erlyniadau sy'n cael eu harwain gan dystiolaeth drwyddi draw. Mae'r canllawiau yn helpu erlynwyr i wneud penderfyniadau drwy eu helpu i nodi, deall ac ymateb i anghenion

dioddefwyr. Mae'n cynnwys gwybodaeth ar fynd i'r afael â mythau a stereoteipiau a'u herio, neu i ddeall ymddygiad dioddefwyr y gall erlynwyr ddod ar ei draws yn eu gwaith achos.

I gynorthwyo gydag ymchwiliadau neu i roi gwybodaeth i ddioddefwyr, gall ein canllawiau cyfreithiol fod yn ddefnyddiol i'r heddlu, gwasanaethau cymorth ac asiantaethau eraill o fewn y system cyfiawnder troseddol. Mae hynny oherwydd ei fod yn esbonio ein rôl a sut rydym yn ystyried, cyhuddo ac erlyn achosion o gam-drin domestig.

- **Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y troseddwr ac sydd wedi'i arwain gan dystiolaeth** i adeiladu achos, sy'n cynnwys edrych yn fanwl ar weithredoedd y person o dan amheuaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y drosedd honedig. Byddwn yn cynghori ymchwilwyr i fynd ar drywydd llwybrau ymholi rhesymol. Gall hyn gynnwys dadansoddiad o ddulliau cyfathrebu digidol y person o dan amheuaeth, dadansoddiad o'u hymddygiad ar deledu cylch cyfyng (CCTV) neu ddatganiadau wrth drydydd partïon a all fod â gwybodaeth am y partïon neu y gwnaed datgeliadau iddynt. Mae'r dull hwn yn ffafriol i adeiladu'r achos cryfaf posibl tra'n sicrhau bod yr ymchwiliad yn deg.

- **Cefnogi dioddefwyr a thystion** i roi eu tystiolaeth orau. Gall rhoi tystiolaeth mewn treial deimlo'n frawychus i unrhyw un. Gallwch ofyn i'r barnwr wneud addasiadau penodol – sy'n cael eu galw'n fesurau arbennig – sydd wedi'u hanelu at wneud dioddefwyr a thystion deimlo'n fwy cyfforddus wrth roi tystiolaeth yn y llys.

  Mae dioddefwyr cam-drin domestig yn gymwys am fesurau arbennig, mae enghreifftiau yn cynnwys rhoi tystiolaeth drwy gyswllt teledu, tystiolaeth fideo a recordiwyd, tystiolaeth a roddwyd yn breifat (pan fydd aelodau'r cyhoedd ddim yn cael mynediad i'r llys), sgriniau, archwiliad drwy gyfryngwr neu ddefnyddio cymhorthion cyfathrebu.

  Gall ein herlynwyr helpu dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth gael mynediad at amrywiaeth o'r addasiadau hyn, yn dibynnu ar beth ydynt, ac y mae tîm yr erlyniad yn teimlo y bydd yn eu helpu fwyaf. Mae gan nifer o ardaloedd Lysoedd Cam-drin Domestig arbenigol i ddelio ag achosion o'r fath.

  Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Chynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol, sy'n gallu cynnig cefnogaeth, cyngor a chymorth proffesiynol i ddioddefwyr cam-drin domestig, os yw'n cael ei riportio i'r heddlu neu beidio.

- **Diogelu dioddefwyr** drwy gymhwyso gorchmynion amddiffyn, fel gorchmynion atal, neu'r Gorchmynion Amddiffyn Cam-drin Domestig newydd , a gyflwynir gan y Ddeddf, i wella diogelwch dioddefwyr cam-drin domestig. Byddwn yn erlyn y rheini sy'n torri gorchmynion o'r fath yn gyflym, lle bynnag y bodlonir ein prawf cyfreithiol.

- **Datblygu Fframwaith Arferion Gorau Cam-drin Domestig** i ddarparu dull cyd-gysylltiedig at reoli risg ac arbenigedd yn y system i ddioddefwyr cam-drin domestig. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Chynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol a gwasanaethau'r llysoedd i wella cefnogaeth gofleidiol a defnyddio staff mewn llysoedd ynadon sydd wedi'u hyfforddi i safon uchel.

  Mae egwyddorion craidd y fframwaith arferion gorau yn cynnwys dull aml-asiantaeth clir, sy'n mynd i'r afael â rheoli risg, diogelu ac yn nodi cymorth Cynghorwyr Cam-drin Domestig

Annibynnol. Mae'n sicrhau bod staff hyfforddedig yn cael eu defnyddio'n gyson gan bob un o’r asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau’r llys i gynnig gwasanaethau rhagweithiol i dystion. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo cyn y treial a’r defnydd priodol o fesurau arbennig.

- **Adolygu ein hagwedd at hyfforddiant cam-drin domestig** drwy ddefnyddio dealltwriaeth erlyniadol i siapio ac i lywio hyfforddiant. Byddwn hefyd yn ymgorffori profiad hyfforddi o'r tu allan i Wasanaeth Erlyn y Goron i sicrhau bod ein dysg a'n datblygiad yn cynnig buddion o bersbectif allanol. Mae amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi ar gael i staff Gwasanaeth Erlyn y Goron, fel hyfforddiant sydd wedi’i lywio gan drawma, erlyniadau sydd wedi’u harwain gan dystiolaeth a mesurau arbennig. Byddwn yn parhau i ehangu a buddsoddi yn nysg a datblygiad ein staff er mwyn i ni allu roi’r sgiliau, yr offer a’r gefnogaeth sydd eu hangen ar ein pobl i ymateb i natur esblygol cam-drin domestig.

- **Datblygu ein dealltwriaeth o gydraddoldeb** mewn achosion o gam-drin domestig, drwy ddyfnhau ein dealltwriaeth o faterion a brofir gan wahanol grwpiau a chymunedau wrth gael mynediad i gyfiawnder. Byddwn yn defnyddio’r ddealltwriaeth honno i siapio ac i lywio ein rhaglen hyfforddi ddiwygiedig.

- **Monitro effaith** y polisi hwn drwy lywodraethiant y Grŵp Llywio Cam-drin Domestig, grŵp traws-adrannol sydd â chyfrifoldeb am gam-drin domestig, i sicrhau bod ymrwymiadau’n cael eu datblygu a’u gweithredu yn ôl y bwriad. Mae hyn yn cynnwys monitro sut mae newidiadau polisi wedi'u trosi'n newid gweithredol i gynyddu nifer ac ansawdd yr erlyniadau cam-drin domestig. Cyfrifoldeb allweddol yw craffu ar berfformiad – drwy ddeall ein data ar gam-drin domestig yn well, byddwn yn nodi lle gallwn wella arbenigedd ar y rheng flaen a chynnig profiad gwell i ddioddefwyr a thystion.

  Mae’r Grŵp Llywio yn sicrhau ein bod yn meithrin ac yn cydlynu ein perthnasoedd gyda rhanddeiliaid allanol i gyflawni datblygiadau polisi a chanlyniadau gwaith achos gwell.

## Adolygu a Gwerthuso’r Datganiad Polisi

Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y datganiad hwn bob dwy flynedd. I sicrhau gwelliant parhaus, byddwn yn gwneud y diwygiadau angenrheidiol i’r polisi hwn i fynd i’r afael ag unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth, arferion gorau neu faterion gweithredol.

Caiff effaith y polisi hwn a’r rhaglen Cam-drin Domestig ei monitro drwy Gynllun Busnes Gwasanaeth Erlyn y Goron a’i gwerthuso drwy’r Grŵp Llywio Cam-drin Domestig.